Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# PRESENOLDEB YN YR YSGOL

## Pam bod ysgol a phrydlondeb yn bwysig?

### Gan fod pob eiliad yn cyfrif:

- Mae 5 munud yn hwyr bob dydd yn golygu bod tri diwrnod cyfan o ysgol yn cael eu colli bob blwyddyn
- Mae 95% o bresenoldeb yn cyfateb i golli pythefnos o addysg mewn blwyddyn ysgol
- Mae presenoldeb gwael yn effeithio ar ddysgu
- Mae presenoldeb gwael yn effeithio ar ganlyniadau yn y dyfodol
- Mae presenoldeb yn effeithio ar les ac ymdeimlad o berthyn

### Mae'r ysgol yn pryderu am bresenoldeb eich plentyn ac maent yn mynd i gysylltu â'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysg. Beth fydd y Gweithiwr Cymdeithasol Addysg yn ei wneud?

- Cysylltu â chi i drefnu cyfarfod
- Cyfarfod i drafod y rhesymau dros bresenoldeb gwael eich plentyn a thrafod eich pryderon.
- Rhoi cymorth a chyngor i wella presenoldeb eich plentyn.
- Asesu'r sefyllfa a chytuno ar gynllun cefnogaeth gyda chi, eich plentyn a'r ysgol
- Trafod gyda'r ysgol ynghylch defnyddio Rhybudd Cosb Benodedig
- Dechrau camau cyfreithiol mewn achosion lle nad yw presenoldeb yn yr ysgol yn gwella.

Gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg drwy ffonio

01824 – 708064